

**Cofnodion Cyfarfod o Gyngor Tref Porthmadog a gynhaliwyd
ar Nos Fawrth, 14eg o Ionawr 2020, 6:30 yn Ystafell Glaslyn, Y Ganolfan, Porthmadog.**

Presennol: Cyngorwyr: Gwilym Jones (Cadeirydd), Simon Brooks, Melfyn Edwards, Aled Griffith, Selwyn Griffiths, Alwyn Gruffydd, Jason Humphreys, Nia Jeffreys, Ian Jones, Dafydd Lake, Richard Williams, Glenda Burke (Clerc).

Hefyd yn bresennol : Angharad ab Iorwerth, Huw Meredydd Owen (Breuddwydion Bro).

Ymddiheuriadau: Cyngorwyr : Carol Hayes, Llywelyn Rhys, Bethan O. Rees Jones.

187. Croesawyd pawb i'r cyfarfod cyntaf am 2020 gan y Cadeirydd yn enwedig Angharad ab Iorwerth a Huw Meredydd Owen oedd wedi dod i ddiweddarau'r Cyngor Tref ar gynlluniau ar gyfer Cae Chwarae Bodawen.

Cychwynnodd Angharad gan roi cefndir i sut y cychwynnodd hyn sef nol yn 2011 daeth cyfle i gymunedau gyd weithio efo Prifysgol Bangor ar gynllun i drafod ac adnabod anghenion ardaloedd. Daethpwyd cyfle i wneud cais i fod yn rhan o'r prosiect ac er fod yr amserlen yn dynn gwnaethpwyd cais o dan Freuddwydion Bro Madog. Yn anffodus cais Dyffryn Nantlle fu'n llwyddiannus i gael yr arian ond fe ddaeth y Brifysgol yn ôl gan eu bod wedi hoffi cynllun Breuddwydion Bro er mwyn gweld beth oedd fyddai'n bosib ei wneud yn yr ardal. Fe wnaethant gynnig cyd weithio i wneud ymgynghoriad trylwyr efo pobl ifanc, pobl hŷn a holl drigolion yr ardal. Daeth yn amlwg fod angen rhywbeth i bobl ifanc a phlant. Mae Breuddwydion Bro efo cyfansoddiad, cyfrif banc ayb fydd yn hanfodol ar gyfer gwneud ceisiadau am grantiau. Galwyd y cynllun bras yn Parc Pawb. Gorffennodd Angharad drwy nodi fod gan Freuddwydion Bro Madog y potensial i ateb lot o anghenion llesiant ac iechyd plant a phobl ifanc. Mae grantiau wedi ariannu'r prosiect hyd yma.

Daeth Huw ymlaen i son am y cynllun dechreuol sydd wedi ei baratoi ac egluro'r syniadau a'r meddylfryd tu ôl iddo. Yn 2016 paratowyd y cynllun oedd angen fod yn nodweddiadol ar y tirlun o'r cychwyn. Roedd yna angen am le chwarae gwell yn yr ardal efo cysylltiad efo chwaraeon. Roedd y lle angen bod yn berthnasol ac addas i wahanol oedrannau o blant a phobl ifanc i drigolion hŷn. Roedd angen darparu lle agored a braf i'r gymuned i gyfrannu at lesiant y trigolion.

Roedd angen edrych yn gyntaf ar y safle sydd yn un braf ond nid yw'r argraff gyntaf o'r ffordd yn un da. Mae'n angenrheidiol gwneud y lle yn ddeniadol.

Dangosodd gyflwyniad efo rhai o'r syniadau. Roedd am weld y safle efo coed gwahanol i'r arfer ond fyddai'n gweddu efo'r rhai sydd o gwmpas. Roedd wedi gwneud lot o ymchwil i lefydd eraill gan weld cynlluniau gwahanol o gwmpas yr ardal. Roeddent yn gwled y byddai angen llwybr i fynd reit o gwmpas y safle fyddai'n addas i feicio a cerdded ac yn llyn cyswllt i bopeth ar hyd y safle. Roedd wedi cynnwys sleids, swings, ffraniau dringo, zip wires ar y cynllun rhagarweiniol yma. Ar ôl hyn roedd angen asesu barn ac roedd yna 3 cyfarfod wedi ei drefnu yn 2016. Roedd adborth wedi ei dderbyn fod plant a phobl ifanc 12-13 ishio lle i gael cicio pêl ac yn awgrymu safe efo ffens o'i gwmpas. Lluniwyd rhestr o ddymuniadau pobl gan ddechrau edrych mewn i gyllidebau / costau prynu, gosod a cynnal offer. Dangoswyd engrheiffitiau o wahanol offer – offer chwarae ac offer cymdeithasu gyda wal ddringo bach.

O ran y tirlun roedd yn awgrymu gosod canopi i ddangos y lle a'i wneud yn ffocws ar gyfer cynnal gweithgareddau, arddangosfeydd ac yn y blaen.

Byddai angen gwell porth / mynedfa i'r safle ac ystyried os fyddai angen toiledau a lle i werthu pethau. Bydd angen i'r safle fedru talu am ei hun ond bydd angen lot o waith i'w wireddu. Nid oedd yn medru bod yn hollol siŵr o'r costau ond byddai yn tybio rhwng £350,000 a £600,000. Adroddodd Angharad mai'r cam nesaf ydi llywodraethant.

Er bod Breuddwydion Bro yn dal yn bodoli bydd yn rhad cael pwyllgor gwahanol i symud y cynllun ymlaen, un fydd yn cynnwys croes doriad o'r gymuned o ran oedran ac yn y blaen yn ogystal â chynrychiolwyr o'r cyngor tref. Mae Alys Lloyd Jones, swyddog datblygu ardal wedi bod yn cefnogi'r cynllun.

Agorwyd y llawr am gwestiynau a sylwadau.

Diolchodd y Cyng. Richard Williams i Angharad a Huw am y cynlluniau uchelgeisiol. Bydd angen i'r cyngor drafod a phenderfynu os yr ydynt am eu cefnogi.

Cytunodd y Cyng. Selwyn Griffiths efo hyn.

Roedd y Cyng. Jason Humphreys eisiau gweld pwyllgor Breuddwydion Bro yn cyd weithio efo'r Cyngor Tref i sefydlu pwyllgor newydd. Cytunodd y Cyng. Simon Brooks efo hyn gan nodi y byddai angen cadarnhau'r sefyllfa a'r marc cwestiwn sydd am Wylfa B er mwyn hwyluso ceisiadau grantiau.

Roedd y Cyng. Nia Jeffreys yn ategu'r diolch. Roedd yn cynnig fod is bwyllgor yn cyfarfod a dod ac argymhellion i'r Cyngor llawn. Eiliwyd y cynnig gan y Cyng. Richard Williams.

Derbyniwyd gwelliant y Cyng. Selwyn Griffiths i wahodd aelodau pwyllgor Breuddwydion Bro i'r cyfarfod.

Diolchodd y Cadeirydd i Angharad a Huw am eu hamser. Gadawodd y ddau y cyfarfod.

188. Adroddiad y Cadeirydd

Dymunodd y Cadeirydd Flwyddyn Newydd Dda i bawb. Roedd wedi sylwi fod y dref i weld yn brysur iawn dros y Nadolig efo lot o bobl i weld o gwmpas.

Cyfeiriodd y Cadeirydd at y cwmwl du oedd wedi dod dros yr ardal yn dilyn marwolaeth nifer helaeth o drigolion oedd yn hoelion wyth y gymuned ac yn weithgar dros yr ardal mewn sawl maes. Dymunai gydymdeimlo yn ddwys iawn ar ran y Cyngor Tref efo'r teuluoedd oedd wedi colli anwyliad a'r ardal gyfan fydd yn gweld eu colled. Bydd hoel eu gwaith mewn gwahanol feysydd i'w gweld am flynyddoedd maith i ddod. Bydd colled fawr ar eu holau.

Roedd y Cadeirydd wedi derbyn gair fod yna gyfarfod nos Fercher nesaf sef yr 22ain o Ionawr 2020 am 7:30 yn festri Capel y Porth i sefydlu Pwyllgor Ardal Apêl Eisteddfod 2021.

189. Cadarnhau cywirdeb cofnodion cyfarfod rheolaidd a gynhaliwyd ar y 10fed o

Ragfyr 2019. Penderfynwyd : derbyniwyd y cofnodion fel y rhai cywir a llofnodwyd hwy gan y Cadeirydd yn unol â gofynion y gyfraith.

Cynnig : Cyng. Melfyn Edwards. Eilio : Cyng. Ian Jones.

190. Cyfle i'r Cynghorwyr ddatgan diddordeb.

Cynghorydd Ian Jones – Cais cynllunio C19/1207/44/LL – Aelod o'r clwb golff ac mae'r cais cynllunio ar y ffin.

Materion i'w dwyn gerbron :

191. Cyng. Richard Williams – cynnig ein bod yn dilyn y rheolau sefydlog 17.2 yn dilyn adroddiad BBC parthed traeth y Greigddu.

Adroddodd y Cyng. Williams fod hyn wedi codi yn dilyn cyflwyniad ar y teledu gan y BBC yn dilyn y cyfarfod ynglŷn â thraeth y Greigddu a'r cynllun meysydd parcio 10%.

Roedd y cyflwyniad wedi dod o unlle a gyda lluniau o draeth oedd yn llawn o blastig - nid traeth y Greigddu oedd o. Roedd am wybod pwy oedd wedi rhoi'r stori ymlaen gan mai dim ond y Cadeirydd, Is Gadeirydd a'r Clerc sydd efo'r hawl i wneud datganiadau ar ran y Cyngor Tref (yn ôl y Rheolau Sefydlog). Roedd yn gofyn am gefnogaeth y Cyngor Tref i nodi hyn a dilyn y Rheolau Sefydlog. Adroddodd y Cadeirydd ei fod wedi siarad efo'r BBC a'r Cyng. Selwyn Griffiths wedi siarad fel y Cynghorydd Sir.

Nododd y Cyng. Simon Brooks fod y cynghorywr yn dilyn y Rheolau Sefydlog , adroddodd fod y BBC wedi cysylltu ag ef yn dilyn datganiad yr oedd wedi ei roi ar ei gyfrif trydar. Roedd wedi eu cyfeirio at Gadeirydd y Cyngor Tref. Mae gan bob cynghorydd hawl i wneud datganiad fel cynghorydd . Cytunai'r Cyng. Jason Humphreys efo hyn gan nodi fod dyletswydd arnynt i adael i bobl y dref wybod beth sydd yn mynd ymlaen yn y cyfarfodydd. Roedd y dyddiau ble roedd newyddiadurwyr o'r Caernarfon & Denbigh a'r Cambrian News yn mynychu'r cyfarfodydd wedi

hen fynd.

Adroddodd y Cyng. Selwyn Griffiths ei fod wedi gwneud cyfweiliad ond dim ond mymryn bach yr oedd wedi ei ddefnyddio. Nid oes yna reolaeth o be maent yn ei ddefnyddio.

Pwysleisiodd y Cyng. Alwyn Gruffydd fod y Cyngor Tref yn fforwm agored a bod yn bwysig ei gadw felly. Mae pawb efo hawl i fynegi eu barn neu byddai'n rhaid mynd yn gyfarfodydd caeedig.

Penderfynwyd: Derbyn y wybodaeth a nodi rheol 17.2 o ran datganiadau ar ran y Cyngor Tref.

192. Cyng. Richard Williams - cynnig ysgrifennu at arweinydd portffolio tai Cyngor Gwynedd ein bod ni angen gweld cynllun datblygu tai fforddiadwy modern yn ein cymuned.

Nododd y Cyng. Williams ei bryder am y sefyllfa tai fforddiadwy a thai yn gyffredinol yn yr ardal. Mae stoc tai Porthmadog yn sâl iawn a ddim yn cynnig dyfodol i bobl ifanc sydd eisiau ymgartrefu yn yr ardal. Roedd yn cynnig gofyn am gyfarfod brys efo Craig Ab Iago a Dafydd Gibbard i drafod y ffordd ymlaen. Eiliwyd y cynnig gan y Cyng. Nia Jeffreys nododd fod hyn yn amserol iawn gan fod swyddogion Cyngor Gwynedd yn edrych ar y diffyg tai.

Cynigiodd y Cyng. Jason Humphreys welliant sef i gyfarfod i drafod argaeledd ac ansawdd tai yn yr ardal. Nododd fod pobl Porthmadog yn gorfod disgwyl am flynyddoedd am grantiau i wella tai. Teimlai fod yn rhaid cael lleoliadau i'w cynnig ar gyfer adeiladu tai fforddiadwy newydd yn yr ardal i ddatrys y diffyg cyflenwad tai. Eiliwyd y cynnig gan y Cyng. Simon Brooks a chariwyd y gwelliant.

Penderfynwyd : ymateb yn ôl y cynnig.

193. Cyng. Alwyn Gruffydd - Cynnig cysylltu efo Cyngor Gwynedd am ddiweddariad ac amserlen y gwaith yn y Nyrseri. Nododd fod y safle ar gau ers deufis bellach a dim i weld yn digwydd. Er gwaethaf yr arwyddion fod y safle ar gau mae pobl i weld yn parhau i fynd yna. Eiliwyd y cynnig gan y Cyng. Nia Jeffreys.

Penderfynwyd : ysgrifennu at Bob Griffiths i holi am ddiweddariad yn ôl y cynnig.

194. Cyng. Gareth Williams – problemau trafndiaeth yng Nghlog y Berth.

Penderfynwyd : yn absenoldeb y Cyng. Williams rhoi'r mater ar raglen mis Chwefror.

195. Sedd wag Ward Ddwyreiniol.

Penderfynwyd : rhoi caniatâd i'r Clerc hysbysebu'r sedd yn yr Wylan gan nad yw'r hysbyseb ar y wefan a'r hysbysfwrdd wedi denu unrhyw ymgeisydd.

196. Materion i'w dwyn gerbron y Cadeirydd unai er gwybodaeth neu i'w rhoi ar y Rhaglen ar gyfer y cyfarfod nesaf.

(Dyddiad cau Rhaglen mis Chwefror 2020 – 4ydd o Chwefror 2020).

- Cyng. Gareth Williams – problemau trafndiaeth yng Nghlog y Berth.

197. Gohebiaeth : Rhestr Aros am Ateb.

Penderfynwyd : Derbyn y wybodaeth a pharhau i bwysu am ateb fel bo angen.

Gohebiaeth :

198. Rhian Williams, Rheolwr Uned Trafnidiaeth Integredig a Diogelwch Ffyrdd, CG – amserlen newydd Arriva (ymateb i lythyr parthed bysiau rhaglen Tachwedd, cof.139).

Penderfynwyd : Derbyn y wybodaeth.

199. Gill Harries, Dirprwy Brif Weithredwr, BIPBC - gweddillion sigarets - Ysbyty Alltwn (ymateb i lythyr rhaglen Gorffennaf, cof. 52).

Nododd y Cyng. Alwyn Gruffydd fod yn amlwg fod y Bwrdd Iechyd am annog pobl i beidio ysmegu , gan osod arwyddion yn hytrach na gosod biniau. Nododd y Cyng. Richard Williams ei fod wedi sylwi gwella yn y sefyllfa o ran sigarets a bod baw cŵn yn fwy o broblem. Cynigiodd y Cyng. Nia Jeffreys y dylid monitro'r sefyllfa.

Penderfynwyd : Derbyn y wybodaeth.

200. Rhian Williams, Rheolwr Uned Trafnidiaeth Integredig a Diogelwch Ffyrdd, CG – llochesi bws Tremadog (ymateb i lythyr rhaglen Pwyllgor Eiddo, Tachwedd 2019).

Adroddodd y Cyng. Selwyn Griffiths er gwybodaeth fod y gwaith ger y parc yn cychwyn ar yr 22ain o Ionawr 2020. Bydd lloches bws y Cyngor Tref (ger yr orsaf drên) yn cael ei adnewyddu am ddim fel rhan o'r cynllun yma. Holodd y Cyng. Aled Griffith os bydd ymgynghori ynglŷn â llochesi bws Tremadog a chadarnhaodd y Cyng. Alwyn Gruffydd y bydd.

Penderfynwyd : Derbyn y wybodaeth.

201. Rhian Williams, Rheolwr Uned Trafnidiaeth Integredig a Diogelwch Ffyrdd, CG – gwasanaeth bws i ysbyty Alltwen (ymateb i lythyr rhaglen Rhagfyr, cof.177).

Roedd y Cyng. Alwyn Gruffydd yn derbyn fod hyn yn sefyllfa anodd i'w datrys ond roedd yn cynnig y dylid ysgrifennu at Brif Weithredwr Betsi Cadwaladr gan gynnwys copi o'r llythyr yma, copi o'r amserlen a gofyn am eu cefnogaeth. Eiliwyd y cynnig gan y Cyng. Selwyn Griffiths. Awgrymodd y Cyng. Richard Williams y gellid datrys hyn drwy ddefnyddio bysiau llai ,gallent wedyn fynd yn fwy aml gan y byddent yn ddefnyddio llai o ynni.

Cynigiodd y Cyng. Melfyn Edwards welliant i'r cynnig sef i gynnwys Comisiynydd Pobl Hyn Cymru yn y llythyru gan ofyn am eu cefnogaeth. Derbyniwyd y gwelliant gan y Cyng. Alwyn Gruffydd.

Penderfynwyd : ysgrifennu yn ôl y cynnig.

202. Rod Taylor, Cyfarwyddwr Ystadau BIPBC - tir model dairy (ymateb i lythyr rhaglen Gorffennaf, cof.68).

Cynigiodd y Cyng. Melfyn Edwards y dylid ysgrifennu at Ffion Johnstone i ofyn am ymgynghoriad lleol er mwyn cael sicrhad fod Porthmadog yn cael eu siâr o unrhyw arian ddaw o werthu'r tir yma. Roedd y Cyng. Jason Humphreys yn cynnig gwelliant sef i ysgrifennu hefyd at Ysgol Eifionydd i'w hysbysu o'r potensial am ffordd i ariannu mynedfa newydd i'r ysgol. Eiliwyd y gwelliant gan y Cyng. Jones.

Penderfynwyd : ysgrifennu yn ôl y cynnig.

203. Y Ganolfan – ymateb i lythyr rhaglen Chwefror ,cof.280.

Cynigwyd mynd yn gaeedig i drafod yr ohebiaeth yma gan y Cyng. Jason Humphreys, eiliwyd y cynnig gan y Cyng. Selwyn Griffiths.

Penderfynwyd : Ymateb yn ôl y penderfyniad.

Cynigwyd mynd yn agored yn ôl gan y Cyng. Selwyn Griffiths , eiliwyd gan y Cyng. Alwyn Gruffydd.

204. Amgueddfa'r Môr Porthmadog – cylchlythyr Gaeaf 2019.

Penderfynwyd : Derbyn y wybodaeth gan ysgrifennu atynt i'w llongyfarch ac i ddiolch am eu gwaith. Cynnig Cyng. Selwyn Griffiths, eiliwyd gan y Cyng. Dafydd Lake.

205. Un Llais Cymru – diwrnod VE 8.5.2020.

Penderfynwyd : Derbyn y wybodaeth.

206. Materion Ariannol :

Biliau i'w talu :

Cyngor Gwynedd – costau torri gwellt Cae Bodawen , Bryn Coffa	=	£6,777.37
Cob Crwn a chynnal llwybrau	=	£126.00
Xerox Finance - llogi llungopiwr 1.2.2020- 30.4.2020	=	£126.00
Glenda Burke – inc ar gyfer y printer 1.11.19 – 30.11.19 (£10.49)		
a hanner costau ffôn/we 26.12.19 – 25.1.2020 (£32.25)	=	£42.74
Glenda Burke – cyflog Clerc mis Rhagfyr 2019	=	£599.00
Cyllid a Thollau EM – treth incwm ac yswiriant gwladol	=	£155.00

Derbyniadau:

Llog Banc Rhagfyr 2019	=	£5.57
------------------------	---	-------

Penderfynwyd : talu'r biliau a nodi'r derbyniadau yn ôl cynnig y Cyng.Simon Brooks, eiliwyd gan y Cyng. Dafydd Lake.

207. Ceisiadau Cynllunio :

- i) **C19/1207/44/LL** – Cais ar gyfer codi tŷ annedd deulawr.
Cymerau, Ffordd Morfa Bychan, Morfa Bychan, Porthmadog, Gwynedd, LL49 9UY.
Penderfynwyd : gwrthwynebu ar y sail ganlynol :
- 1- nid yw'r cynllun hwn am dŷ i bobl leol a thŷ fforddiadwy.
 - 2- mae'n or-ddatblygiad.
 - 3- nid yw'r cynllun yn gweddu efo gweddill y tai o'i gwmpas.
- Cynigwyd gan y Cyng. Richard Williams, eiliwyd gan y Cyng. Dafydd Lake.